**Richard Price**
**Prif Weithredwr**
Ffôn 020 7282 2006
Ffacs 020 7282 2043
E-bost richard.price@orr.gsi.gov.uk

15 Mawrth 2012

SWYDDFA RHEOLEIDDIO'R RHEILFFYRDD
OFFICE OF RAIL REGULATION

Carl Sargeant AC
Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Weinidog,

**HYSBYSIAD O GOSTAU AC ALLBYNNAU NETWORK RAIL YN YSTOD CYFNOD RHEOLI 5**

Mae'n bleser gen i amgáu copi o'n hysbysiad o gostau ac allbynnau Network Rail a gyflwynwyd gennym heddiw i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ac a gyhoeddwyd ar ein gwefan. Byddwn yn darparu'r hysbysiad er mwyn helpu'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar yr hyn ddylai rheilffyrdd Cymru a Lloegr ei ddarparu yn ystod y cyfnod rheoli rheoleiddio nesaf (cyfnod rheoli 5, neu CP5) a chyfanswm yr arian cyhoeddus y bydd yn ei glustnodi ar gyfer hyn

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu cyhoeddi ei 'Manyleb Allbwn Lefel-Uchel' (HLOS) a 'Datganiad o'r Cyllid Sydd ar Gael' (SoFA) erbyn diwedd Gorffennaf 2012. Maent yn darparu mewnbwn allweddol i'n hadolygiad cyfnodol o ffioedd mynediad, allbynnau rheoleiddio a fframwaith cymhelliant ehangach Network Rail ar gyfer CP5, y byddwn yn disgwyl iddynt fod mewn grym o 1 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2019.

Er bod Deddf Rheilffyrdd 1993 yn rhoi'r cyfrifoldeb am HLOS a SoFA yng Nghymru a Lloegr i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru'n dymuno cael mwy o gyfrifoldeb am y rheilffyrdd. O gofio hyn, a'ch ymgysylltiad parhaus â'r Ysgrifennydd Gwladol a'i hadran mewn perthynas â PR13, rwyf felly'n ysgrifennu atoch yn bersonol am faterion sy'n ymwneud â Chymru yn yr hysbysiad hwn ac am agweddau eraill ar y PR13 yn fwy arbennig.

**Ein hymrwymiad i wella gwerth am arian drwy PR13**

O ganlyniad i adolygiadau cyfnodol blaenorol bydd costau Network Rail yn 2013-14, ar ddiwedd y cyfnod rheoli cyfredol, 40% yn is nag oeddent yn 2003-04. Serch hynny, rydym



INVESTOR IN PEOPLE

yn benderfynol o sicrhau gwelliannau pellach yn effeithlonrwydd Network Rail. Rydym yn amcangyfrif, o'r arbedion posibl a nodwyd gan Syr Roy McNulty yn ei astudiaeth *Rail Value for Money* (RVfM) (a gomisiynwyd ar y cyd gennym â'r Adran Drafnidiaeth), fod Network Rail mewn sefyllfa i sicrhau arbedion o £1.8-2.2bn. Yng Nghynllun Cychwynnol y Diwydiant (IIP), ar gyfer CP5 (a gyhoeddwyd gan y diwydiant ar gyfer Cymru a Lloegr ym mis Medi 2011) mae Network Rail eisoes wedi ymrwymo i sicrhau arbedion ym mhen isaf yr ystod a nodwyd gan astudiaeth RVfM. Trwy PR13, byddwn yn herio Network Rail ymhellach i ganfod arbedion uchelgeisiol ond cyraeddadwy y tu hwnt i hyn yn CP5.

Ar hyn o bryd, mae gwariant blynyddol Network Rail yng Nghymru tua £250 miliwn - swm sylweddol o arian. Trwy sicrhau gwell gwerth am arian, bydd modd gwneud dewisiadau o ran sut i ddefnyddio unrhyw arbedion.

**Ein hymrwymiad i ddiwygio diwydiant trwy PR13**

Credwn fod PR13 yn hwylusydd a sbardun pwysig i ddiwygio diwydiant trwy:

- sicrhau **ffocws ar beth sy'n bwysig** i deithwyr, cwsmeriaid trenau nwyddau a threthdalwyr – yn enwedig gwella gwerth am arian;
- **dull mwy dadgyfunol** - mwy o dryloywder, hwyluso agweddau lleol, a chaniatáu agwedd fwy cymharol tuag at reoleiddio maes o law;
- **cysoni cymhelliannau** - gwella'r rhyngwyneb rhwng gwahanol aelodau yn y diwydiant, hwyluso cynghreirio, rhannu manteision effeithlonrwydd ar lefel y teithiau, a threfniadau wedi'u teilwra;
- **mwy o gystadleurwydd** – sicrhau bod mwy o gystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau perthynol y seilwaith lle bo'n briodol, gan sicrhau arbedion pellach

Nododd astudiaeth RVfM mai'r gweithredwyr trenau a'r diwydiant yn ehangach ddylai sicrhau cyfran sylweddol o'r arbedion (rhwng £0.7bn a £1.2bn y flwyddyn). Trwy PR13 byddwn yn gobeithio gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod yr arbedion hyn yn cael eu gwireddu. Serch hynny, dim ond mewn cydweithrediad â newidiadau eraill a reolir gan lywodraethau y gellir sicrhau'r arbedion hyn. Er enghraifft, y llywodraeth sy'n pennu lefelau gwasanaeth masnachfreintiau cyffredinol, ond bydd hi'n bwysig darparu mwy o hyblygrwydd i weithredwyr trenau mewn masnachfreintiau yn y dyfodol er mwyn iddynt sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl a mwy o werth am arian. Felly, bydd angen i Lywodraeth Cymru ynghyd â'r Ysgrifennydd Gwladol a Llywodraeth yr Alban wneud penderfyniadau ar faterion fel hyn.

**Materion sy'n berthnasol i Gymru**

Mae ein hysbysiad yn seiliedig i raddau helaeth ar ein dadansoddiad o'r IIP. Paratowyd yr IIP ar lefel Cymru a Lloegr heb ei ddadgyfuno yn ôl llwybrau. Felly, nid yw ein hysbysiad yn rhoi dadansoddiad sy'n benodol i lwybrau yng Nghymru.

Serch hynny, rydym yn gofyn i Network Rail roi manylion llwybrau yn eu Cynllun Busnes Strategol CP5 (SBP) (i'w gyflwyno erbyn 7 Ionawr 2013), gan gynnwys llwybrau yng Nghymru. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud asesiad gwariant effeithlon yn ôl llwybrau penodol mewn perthynas â Chymru ar gyfer ein penderfyniad terfynol.

Fodd bynnag, hwyrach yr hoffech nodi'r pwyntiau canlynol sy'n ymwneud â Chymru:

*Cynnal a chadw ac adnewyddu*

- Rydym wedi asesu polisïau asedau arfaethedig Network Rail a pha mor gadarn y cawsant eu modelu i ddatblygu rhagamcanion cost a maint sy'n benodol i lwybr. Mae'r modelu yn defnyddio rhestrau asedau a gwybodaeth am gyflwr sy'n benodol i Gymru. Mewn rhai ardaloedd mae angen gwella'r wybodaeth am asedau. O ganlyniad i'r polisïau arfaethedig, mae Network Rail yn rhagamcan £257 miliwn o wariant ar gynnal a chadw a £665 miliwn o wariant ar adnewyddu yng Nghymru yn ystod CP5, sy'n 5.7% o gyfanswm gwariant Prydain.
- Rydym wedi nodi gwendidau ym mholisïau, gwaith modelu, gwybodaeth am asedau, costau unedau a rhagamcanion effeithlonrwydd Network Rail sy'n rhaid eu cywiro yn yr SBP er mwyn sicrhau cynlluniau cadarn ar gyfer Cymru. Yn benodol, rydym yn gofyn i Network Rail ddatblygu data cost unedau sy'n benodol i Gymru ac rydym yn ystyried a ddylid cael ystyriaeth effeithlonrwydd benodol i Gymru. Wrth ddatblygu'r SBP, bydd Network Rail yn cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Asedau Llwybrau fesul llwybr. Byddwn yn craffu arnynt er mwyn deall y goblygiadau polisi asedau i Gymru yn fanylach.

*Gweithrediadau*

- Rydym wedi edrych ar strategaeth weithredu Network Rail ar gyfer Cymru ac mae ganddi achos busnes cadarnhaol, gyda mwy o elw ar fuddsoddiad o gymharu â Lloegr.
- Agorodd y ganolfan weithredu yng Nghaerdydd ym mis Ionawr 2010 ac mae bellach ar waith. Erbyn diwedd CP5 bydd yn gweithredu 60%. Ynghyd â gostyngiadau mewn costau ac eithrio signalau, disgwylir i'r arbedion mewn costau gweithredu fod tua 21%. Mae hyn yn uwch na'r Alban a Lloegr.

*Gwelliannau*

- Rydym wedi cadarnhau bod trydaneiddio llwybr Great Western i Gaerdydd yn brosiect pendant i'r Adran Fasnach ei ystyried yn yr HLOS/SoFA.
- Argymhellwyd mwy o drydaneiddio ar lwybrau Caerdydd a'r cymoedd yn yr IIP ond bydd hynny'n dibynnu ar drydaneiddio llwybr y Great Western. Pan ariennir prosiectau pellach, byddwn yn sicrhau bod cynllun cyflenwi CP5 Network Rail yn nodi'r cerrig milltir yn glir gyda mecanwaith rheoli newid sy'n cynnwys ymgynghori â Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymwybodol fod yr Adran Fasnach yn cydweithio â Llywodraeth

Cymru ar achos busnes ar gyfer y cynllun hwn i'w ystyried fel rhan o'r HLOS ac rydym hefyd wrthi'n trafod gyda'ch swyddogion ynglŷn â mecanweithiau ariannu.

Byddwn wrth reswm yn herio costau'r buddsoddiad arfaethedig ac yn annog Network Rail i ddatblygu atebion dyfeisgar er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian o bob cynllun.

Mae hefyd yn bwysig nodi os na fydd yr HLOS yn cynnwys cynlluniau penodol y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld eu gweithredu, fod ein fframwaith buddsoddi yn darparu mecanwaith i chi bennu ac ariannu'r cynlluniau hyn y tu allan i'r adolygiad cyfnodol.

Wrth weithredu'r PR13 byddwn yn ceisio sicrhau bod ffioedd mynediad penodedig i gledrau (ar gyfer Cymru a lleoedd eraill) yn adlewyrchu'r gost i'r gymaint â phosibl.

**Ymgysylltu yn y dyfodol**

Rydym eisoes wedi cael trafodaethau defnyddiol ar PR13 gyda chi a'ch swyddogion ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at barhau i wneud hynny wrth i'r adolygiad fynd yn ei flaen. Yn benodol, rydym yn awyddus i weithio gyda chi i weld sut gall Llywodraeth Cymru gyfrannu'n fwy i PR13 ac i adolygiadau'r dyfodol.

Yn y cyfamser, os gallaf i neu fy swyddogion eich helpu, cysylltwch â ni yn ddi-oed.

Yn gywir

Richard Price

**RICHARD PRICE**

PRIF WEITHREDWR